***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 297

# Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2021

**Arbedion: parhau i gymhwyso Mesur 2009 mewn perthynas ag awdurdodau Parciau Cenedlaethol**

**6.**—(1) Er bod adran 169 o Ddeddf 2021 yn dod i rym (yn rhinwedd erthygl 2(f)), nid yw'r diwygiadau a wnaed gan y ddarpariaeth honno yn cael unrhyw effaith (ac mae Mesur 2009 yn parhau i fod yn gymwys fel pe na bai adran 169 wedi dod i rym) mewn perthynas ag—

(a) trefniant cydlafurio yr ymrwymwyd iddo, neu y cytunwyd iddo, cyn 1 Ebrill 2021, pan fo o leiaf un o'r partïon yn awdurdod Parc Cenedlaethol;

(b) dyletswydd awdurdod Parc Cenedlaethol i wneud trefniadau yn unol ag adran 15 o Fesur 2009 ar gyfer cyhoeddi—

(i) yr wybodaeth a ddisgrifir yn is-adran (2) o'r adran honno i'r graddau y mae'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(ii) crynodeb o unrhyw adroddiad y cyfeirir ato yn is-adran (4) o'r adran honno mewn cysylltiad ag arolygiad arbennig o'r awdurdod a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021 (pa un a gyhoeddwyd yr adroddiad cyn y dyddiad hwnnw ai peidio);

(c) dyletswydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal archwiliad o dan adran 17 o Fesur 2009 at ddiben penderfynu a yw awdurdod Parc Cenedlaethol, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020, wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (5) o Fesur 2009, ac i ba raddau y mae'r awdurdod wedi gweithredu yn ystod y flwyddyn honno yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd o dan adran 15(8);

(d) dyletswydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddyroddi, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2021, adroddiad neu adroddiadau o dan adran 19(1) o Fesur 2009 mewn cysylltiad â phob awdurdod Parc Cenedlaethol—

(i) sy'n ardystio bod yr Archwilydd Cyffredinol, yn unol ag is-adran (1)(a) o'r adran honno, wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(ii) sy'n datgan, yn unol ag is-adran (1)(b) o'r adran honno, a yw'r Archwilydd Cyffredinol, o ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, yn credu—

(aa) bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (5) o Fesur 2009, a

(bb) bod yr awdurdod wedi gweithredu yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddyroddwyd o dan adran 15(8);

(iii) sy'n argymell, os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn credu ei bod yn briodol yng ngoleuni'r archwiliad hwnnw, unrhyw un neu ragor o'r materion a nodir yn adran 19(1)(f), (g) neu (h)[1] o Fesur 2009;

(1) Ond nid yw adrannau 21, 28, a 29 o Fesur 2009 wedi eu harbed at y dibenion hynny.

(e) dyletswydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i anfon copi o adroddiad a grybwyllir yn is-baragraff (d) yn unol ag adran 19(2) a (3) o Fesur 2009 ac unrhyw orchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (3)(b) o'r adran honno;

(f) pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd o dan adran 19(4) o Fesur 2009 mewn perthynas ag adroddiad a grybwyllir yn is-baragraff (d);

(g) dyletswydd awdurdod Parc Cenedlaethol i ymateb i adroddiad a grybwyllir yn is-baragraff (d) yn unol ag adran 20(1) i (3) a (5) o Fesur 2009 (ac mae is-adran (6) o'r adran honno yn parhau i gael effaith at y dibenion hynny);

(h) pwerau a dyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 21 o Fesur 2009 mewn cysylltiad ag arolygiad arbennig o awdurdod Parc Cenedlaethol a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021;

(i) pwerau a dyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddyroddi, cyhoeddi, ac anfon copïau o adroddiad o dan adran 22 o Fesur 2009 mewn cysylltiad ag arolygiad arbennig o awdurdod Parc Cenedlaethol a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021, yn unol ag is-adrannau (2) a (3) o'r adran honno;

(j) graddfeydd ffioedd a ragnodir gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 27 o Fesur 2009 mewn cysylltiad ag—

(i) arolygiad arbennig o awdurdod Parc Cenedlaethol a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021, neu

(ii) archwiliad o awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd o dan adran 17 o Fesur 2009 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(k) pwerau a dyletswyddau awdurdod Parc Cenedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 27(3), (4) a (4A) mewn cysylltiad â—

(i) arolygiad arbennig o awdurdod Parc Cenedlaethol a gychwynnwyd cyn 1 Ebrill 2021, neu

(ii) archwiliad o awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd o dan adran 17 o Fesur 2009 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020;

(l) unrhyw gymorth neu gynhorthwy a ddarperir i awdurdod Parc Cenedlaethol o dan adran 28 o Fesur 2009 ar 1 Ebrill 2021, ac mae adran 28 yn parhau i gael effaith mewn cysylltiad ag unrhyw gymorth neu gynhorthwy o'r fath ar ôl 1 Ebrill 2021;

(m) unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd i awdurdod Parc Cenedlaethol o dan adran 29 o Fesur 2009 cyn 1 Ebrill 2021, ac mae adran 29 yn parhau i gael effaith mewn cysylltiad ag unrhyw gyfarwyddyd o'r fath ar ôl 1 Ebrill 2021;

(n) unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd i awdurdod Parc Cenedlaethol o dan adran 30 o Fesur 2009 cyn 1 Ebrill 2021, ac mae adran 30 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw gyfarwyddyd o'r fath ar ôl 1 Ebrill 2021.

(2) Er bod adran 169 o Ddeddf 2021 yn dod i rym (yn rhinwedd erthygl 2(f)), mae'r diffiniad o "pwerau cydlafurio" sydd wedi ei gynnwys yn adran 11 o Fesur 2009 yn parhau i gael effaith at ddiben erthygl 6(1)(b), fel pe na bai adran 169 wedi dod i rym.